**Rhif/Number 3**

From: Rowlands Mair CYNG/COUN
Sent: 05 January 2016 10:09
To: Trwyddedu
Subject: Cais i Amrywio Trwydded Eiddo University Place

Bore da,

Rwyf yn cysylltu i wrthwynebu y cais i amrywio trwydded eiddo The Univeristy Plaice, 21 Ffordd Caergybi, Bangor. Cais am ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos ar yr eiddo. Mae'r cais yn mynd yn groes i ddau o amcanion trwyddedu, sef y bydd yn arwain at fwy o niwsans cyhoeddus a trosedd ac anrhefn mewn cylchfa breswyl. Bydd ymestyn yr oriau yn cyfrannu tuag at gynnydd yn yr aflonyddwch ym Mangor Uchaf gyda mwy o bobl yn casglu ar y stryd gan achosi ymddygiad gwthgymdeithasol, cynnydd yn lefel y sbwriel sydd yn cyfrannu at boen cymdeithasol a swn yn oriau man y bore, yr hwyrach yr oriau agor y mwyaf amlwg fydd unrhyw swn. Yn wahanol i ganol y dref, mae Bangor Uchaf yn ardal breswyl ac mae gan drigolion yr hawl i gyfnod rhesymol o heddwch a thawelwch yn ystod y nos.

Diolch

Cofion

Mair Rowlands

Cyng Mair Rowlands
Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Hamdden
Cabinet Member for Children and Young People and Leisure
Ward Menai, Bangor Menai Ward